



# Llais Estonia



## TAITH FYTHGOFIADWY!



### DYDDIADUR Y DAITH

Cafwyd taith hynod addysgiadol i Estonia rhwng Hydref 28 a Thachwedd 4, 2013. Antur enbyd oedd hon i gôr mor fach. Er hynny, fe deithiodd 25 o gantorion, cyfeilydd ac arweinydd, ynghyd â 24 o gefnogwyr.

Er mwyn arbed swm sylweddol o arian, bu raid i rai deithio drwy Oslo ac eraill trwy Stockholm; ond roedd hyn yn ychwanegu at yr antur. Cychwynsom yn blygeiniol fore Llun a bu bron i ni gael haint pan ddaeth tair lori fawr i'n cyfarfod ar ffordd gul Maentwrog. Diolch i ddreifio gofalus gan y gyrrwr, llwyddodd y bws i fynd heibio gyda rhyw fodfedd i sbario – ond fe gollwyd rhyw hanner awr o amser. Collwyd ychydig mwy yn ardal Caer, ac wedyn yn ardal Altrinharn yn nes at y maes awyr. Chawson ni ddim llawer o amser i oedi cyn dal yr awyrennau; yn enwedig Llion oedd yn dal yr awyren gyntaf.

**NOS LUN** - Cyrhaeddwyd yn ddiogel a chafwyd noson ddifyr yng Ngwesty'r Reval yn Tallinn, a bore diddorol os

ychydig yn damp yn edrych ar ogoniannau'r hen dref.

**BORE MAWRTH** - Cyrhaeddodd y bws ar amser a fwrdd â ni i Pärnu, prifddinas yr haf, am dair noson. Doedd dim yn anarferol yn yr olygfa – llawer o goed pin lawer, ac amryw o goed bedw. Caeau gweigion; rhaid bod yr anifriliaid i gyd dan do. Roedd ôl cynaeafu yd, gwenith, haid a rhyg yn y caeau.

**NOS FAWRTH** - Cafwyd y cyngerdd cyntaf yn eglwys hyfryd Tori, pentref rhyw 20 milltir i ffwrdd. Daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd a chafwyd canu da, gydag Iwan Morgan un seren fel unawdydd. Do, mi gawson nhw ddôs o gerdd dant hefyd. Llwyddodd Idris Lewis, y cyfeilydd, i wneud gwrthiau efo'r piano trydanol, ac roedd gwaith Aled, yr arweinydd, yn gaboledig iawn.

**DYDD MERCHER** - I ysgol yr Humanitaargümnaasium. Ysgol uwchradd breifat mewn hen ysbty. Cafwyd croeso brwd. Nododd y pennaeth nad oedd y disgyblion yn arfer gwrando mor astud mewn cyngherddau. Canwyd 'Anfonaf Angen' yn hyfryd gan Kevin ac Olwen, ac roedd



Robert Wyn yn dweud hanes y 'massage' a gafodd o ar ei ysgwydd. Mae Anne ac Ifan yn dangos diddordeb mawr yn ei stori. Cofiwch ofyn iddo adrodd am ei brofiadau yn Estonia!

Janet ac Ann yn mwynhau paned yn un o'r caffis yn yr hen dref yn Tallinn. Fe welwch bod y tywydd yn oer. Roedd cael blanced fel hyn yn gymorth i gadw'n gynnes. Rydym i gyd yn falch bod Janet yn teimlo'n well yn dilyn ei hanffawd.



Roedd cyfraniad Bili i'r daith yn fawr. Roedd yn barod iawn i roi ysgwydd dan y baich pan oedd angen, ac roedd ei ganu yn boblogaidd iawn efo'r cynulleidfaoedd. Hyderwn na fydd yn rhoi'r gorau iddi yn llwyr wrth iddo wario mwy o amser yn Iwerddon. 'Mi gawson ni daith dda unwaith yn rhagor. Diolch i Phil, Aled ac Idris. Rydw i wedi mwynhau fy hun yn arw dros y blynnydoedd. Pob lwc i chi hogia, mi ddof heibio i'r ymarfer pan fyddaf gartref yng Nghymru.'

Katherine yn darllen cerdd yn y noson farddoniaeth. Roedd Katherine wedi mwynhau ei hun yn fawr. Dyma'r trip gorau eto yn ei barn hi.



Margaret yn cyflwyno'r gerdd, 'When I am old I shall wear purple', ac yn gwneud hynny yn feistrolgar iawn.





Arthur a Dewi yn mwynhau peint. Ble cawson nhw'r Guinness? Rhaid mai ar daith arall y tynnwyd y llun hwn.



Aled a Phil yn myfyrto ynghylch beth sydd i fod i ddiwydd nesaf. Mi dalodd y trefnu manwl ar ei ganfed!



Mi gafodd Ifor Wyn hwyl garw ar y canu, dyma fo yn ei elfen yn canu un o'i hoff ganeuon. 'Delilah'.

Hir yw pob ymaros!  
Hyfryd gweld bod y ddraig goch wedi cael teithio hefyd.  
Welch chi Aled ar ochr y llun?



Myfanwy yn darllen y gerdd eironig 'Luck in Sarajevo', ac Iwan yn edrych yn fyfyrgar iawn.

Oedden, mi oedden ni'n mynd yno i fwynhau, ond roedd safon y canu yn bwysig iawn i ni. Wel'e'r hogia, yn rhoi o'u gorau!



Olwen a Myfanwy. Diolch i Olwen am ei chanu swynol, ac am ei sirioldeb parhaus er ei bod mewn dipyn o boen efo'i throed.



Ai Oscar dynnodd y llun hwn? Dim ond gofyn!

## DIOLCH

Diolch i chi hogia'r Côr am y brwdfrydedd yn yr ymarferion, ac am ymdrech ragorol yn Estonia. Yn sicr, fe roeson ni'r ardal hon, a Chymru, ar y map. Diolch i Idris, ein cyfeilydd dawnus, ac i bob un o'r unawdwyr am eu cyfraniadau cyfoethog. Diolch i Gwilym a fu mor allweddol yn y gwaith paratoi. Yn bennaf, diolch i Phil. Golygodd fisoedd o waith ac rydan ni i gyd yn gwerthgawrogi'n fawr. Taith roddodd lawer o fwynhad i mi.

### Aled



Rydw innau eisiau diolch hefyd i bawb a wnaeth y daith hon yn un mor gofiadwy i mi. Fe wnes i fwynhau fy hun yn fawr, un o'r triapiau gorau a gafwyd.

### Idris

Diolch i Phil am drefnu siwrnai bleserus iawn. Mi ddaru ni fwynhau yn fawr - yn arbennig y cacennau siocled!

Llongyfarchiadau i Aled ac Idris hefyd.

### Meirion a Iona

Annwyl Phil

Diolch am y cyfle i ymweld ag Estonia, a mwynhau fy hun ymysg cwmpeini mor ddifyr.

### Enid xx

Diolch. Taith grêt.

### Cassin X

Wedi cael amser bendigedig - ddydd a nos! Wedi mwynhau bod efo'r bois ac wedi mwynhau'r cymdeithasu, ac wedi mwynhau'r carioci. Roedd Tallinn yn dda ond roedd Pärnu yn well.

Mae Phil yn dweud ei fod wedi bod yno bedair gwaith. Dyna beth ydi boi lwcus!

### David

Diolch. Mae'r hogiau ifanc yma wedi bod yn gredyd i'r Côr. Rhaid i ni gael rhagor ohonyn nhw, ond wn i ddim alla' i gadw i fyny efo nhw!

### Llion Williams

Diolch i bawb am drip da. Mi gefais wythnos ddifyr yn eich cwmni. Mi gawson ni lot o chwerthin. Ac roedd y prisiau mor rhad. Buaswn yn mynd yn ôl yno!

### Oscar

Phil, dyma un o'r triapiau gorau y bum arno erioed. Mae Dafydd a minnau wedi mwynhau yn fawr. Llawer iawn o ddiolch.

### Dafydd a Mair X

Diolch o galon am dy holl waith.

Mae Ieu a minnau wedi cael wythnos wrth ein bodd.

### Ieu a Gwen X

Diolch o galon am yr holl waith trefnu.

Cawsom amser gwych.

### Emsyl a Gron

Llawer iawn o ddiolch i bawb.

### Ann a Bryn

Taith werth chweil efo lot o hwyl, ond yn hollol o ddifri efo'r canu. Mi ddaru Dewi a minnau fwynhau bob munud. Cwmni da iawn a phopeth yn gweithio fel wats.

### Megan a Dewi

Diolch yn fawr i bawb.

Mi wnaeth Phil hyd yn oed drefnu tywydd i ni.

Pryd maer trip nesaf?

### Ifan ac Ann

Dwi'n falch fy mod i wedi dod efo chi ar y daith yma. Yn ôl yr arfer, mi gawson ni lawer o hwyl, ond mi oedd 'na ganmol hefyd i'n canu ni. Diolch i bawb.

### Ifor Wyn

Diolch i ti Phil am sawl cymwynas ac am drefnu popeth.

### Arthur

Diolch yn fawr i bawb. Mi gafodd Robin a minnau amser bendigedig.

### Robin a Jean

Phil a Janet ...

unwaith eto,

taith amhrisiadwy.

Diolch o galon am dy lafur.

Aled - diolch am y cyfle, wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Idris - diolch am dy gyfeilio dilol.

### Olwen X

Diolch o galon.

Rydw i wedi mwynhau, hyd yn oed yn y casino!

### Karen X

Ro'n i'n barod am wyliau bach a chael cyfle i anghofio am drafferthion gwaith am gyfnod. Mi oedd bod yn Estonia yn destun rhyfeddod a llawenydd, ac mi wnes i fwynhau'n fawr. Diolch am y gwaith trefnu, Phil, a diolch i Aled ac Idris. Rydw i'n hynod ddiolchgar.

### Dewi Thomas

Roedd y daith yn ardderchog ac mi wnes i fwynhau yn fawr. Diolch.

### Nick

Braint oedd cael bod yng nghwmni Côr Meibion Ardudwy unwaith eto. Llongyfarchiadau ar daith hynod lwyddiannus fel llysgenhadon dros Gymru.

### Hugh

Diolch i ti 'rhen bartnar. Taith arall lwyddiannus. Llongyfarchiadau i tithau Aled, a diolch i Idris am y gwaith wrth yr offeryn, ac i'r meibion am eu canu safonol. Rydw i'n mwynhau eich cwmni yn yr ymarferion ac ar lwyfan yn fawr.

### Iwan

Diolch o galon

Taith fythgofiadwy XX

Jack a Myfanwy,

Maggie ac Alun

Rydan ni'n dau wedi cael amser hynod yn eich cwmni. Diolch am yr arweiniad ym myd y gân a diolch am y gwaith trefnu, a diolch am eich cwmni.

### Kevin ac Ann

Edrych ymlaen am y trip nesaf.

Hwyl ar y trefnu!

### Dewi, Arthog

Mi oedd bod efo'r Côr yn Estonia yn brofiad pleserus iawn. Mi welson ni lawer o bethau newydd a gwahanol, ac roedd popeth wedi ei drefnu i'r dim. Diolch i Aled ac Idris, a diolch i Phil am ei waith caled.

### Roger a Janet

Diolch, oddi wrth un o 'groupies' Traws.

### Nesta xx

Heblaw fy mod i'n aelod o'r Côr, ni fuaswn yn cael teithio i lefydd fel Estonia. Doeddwn i ddim yn gwybod llawer am y wlad cyn mynd, ond mi rydw i rwan. Cefais wythnos o brofiadau difyr, bythgofiadwy. Roedd y bywd yn neis hefyd ac yn wahanol. Diolch i Phil am drefnu, a diolch i Aled am arwain y canu.

### Robert Wyn

Diolch. Mi gefais wythnos wrth fy modd. Rydw i wedi chwerthin lot. Roedd y canu yn dda hefyd, ac roedd yn hwyl bod efo aelodau'r Côr. Dylwn fod wedi bod yn aelod ers talwm! Phil, roeddet ti'n iawn am genod Estonia hefyd! Ro'n i wedi blino ar ôl cyrraedd adref.

### Llion Kerry

Diolch am daith bleserus. Mi wnes i fwynhau yn arw. Llongyfarchiadau i Gôr Meibion Ardudwy. Cryn gamp oedd mynd i Estonia i ganu. Rhagorol yn wir.

### Gwynli



David, Bryn, Ifor Wyn, Kevin a Dewi Thomas yn amlwg yn talu sylw ac yn mwynhau cyngerdd yn Eglwys Tori.



Robert Wyn, Ifor Wyn, Kevin a Gwynli. Nid oedd Gwynli'n teimlo'n dda iawn ar y bore olaf. Hoffai ef ddiolch yn ddiffuant i Dewi Thomas, ac i Phil a Bili am eu cymorth. Mae'n teimlo yn llawer iawn gwellerbyn hyn.

Lluniau: Hugh Roberts.



Ieuan, gafodd hwyl ar ganu 'Lily of the Valley'. Mervyn, y Cadeirydd, Roger, Is Gadeirydd, Llion, unawdydd y 'Rose', Meirion, Alun, a Robin - a oedd mor falch bod Jean, ei wraig, wedi cael cyd-deithio.



Olwen a Kevin yn canu deuawd ag angerdd.

Ieu a Dafydd yn eu cotiau.  
Rhaid bod yr hin yn oer!



yr wythawd yn llawn awch.



Min nos, aeth criw o ryw 25 ohonom i'r Café Grand i fwynhau sesiwn o farddoniaeth gyda'n cyfeillion Estoniaidd. Roedd eu perfformiad nhw yn sensitif iawn. Cafwyd cerddi gan Meirion, Myfanwy, Margaret, Iwan, Katherine a Phil – a chyfraniadau gwiw gan bawb.

**DYDD IAU** – Diwrnod caled. Tri chyngerdd. Cychwyn yn Ysgol Raeküla Kool. Gan nad oedd ganddyn nhw neuadd, bu raid mynd dros y ffordd i'r ganolfan. Eto roedd y plant yn gwrando'n dda a chafwyd cryn hwyl wrth ofyn iddyn nhw ddysgu ychydig o'r iaith i ni. Rhoddwyd £5 yr un i ddau blentyn am wirfoddoli i helpu, a mawr oedd y syndod ar wyneb y gynulleidfa.

Ar ôl cinio ysgol o reis a chyw iâr, ymlaen â ni am ysgol y Sindi Gümnaasium. Yr un drefn yma eto, a chyfle i rannu ychydig o arian i rai plant. Sbort go iawn pan fuon nhw'n ceisio dysgu Oscar a Kevin i gyfrif i ddeg mewn Estoneg. Cafwyd canu da gan Kevin ac Olwen ac fe swynwyd y bobl gan Bili gyda'i gân Wyddelig, 'Ellis Island', a chan Ifor Wyn gyda 'Delilah'. Pan ofynnwyd yma am gyfraniad gan y disgyblion, daeth pump ohonyn nhw allan i ganu cân werin hyfryd.



Newid o'r crys glas i'r siwt ffurfiol ar gyfer cyngerdd ar y cyd â Chôr Merched Leelo yng nghanolfan Raeküla Vanakooli Keskus. Doedd dim angen i ni ganu cymaint yn y cyngerdd hwn, a da o beth oedd hynny wedi diwrnod mor galed. Ond fe gafwyd perfformiadau graenus. Yr unawdwyr – Mervyn, Bryn, Bili, Iwan, Llion, Ifor, Kevin a Ieuan – ar eu gorau. Roedd graen ar ganu'r Côr Merched hefyd. Cawsom gydganu'r ddwy anthem cyn terfynu mewn parti anffurfiol, a chyfle i sgwrsio a dawnsio cyn troi am adref wedi llwyr ymladd. Cyfle hefyd i anrhegu Piia, Marina ac Ester am ein helpu gyda'r trefniadau.



**DYDD GWENER** – I ffwrdd â ni am Pärnu Ühisgümnaasium lle roedd criw o blant yn cymryd rhan mewn cwis ar Wledydd prydain, a'r llysgennad Prydeinig yn bresennol. Canu pump o ganeuon, dwy Gymraeg a dwy yn Saesneg gan Bili ac ifor a gorffen gyda chân mewn Estoneg, 'Makkame Mehed Minema'. Llwyddodd y gân hon i lonni pob cynulleidfa a mawr fu'r cymeradwyo arni ym mhob cyngerdd. Cinio ysgol traddodiadol wedyn – porc a sauerkraut – ond doedd o ddim wrth fodd pawb!

Ymlaen yn y pnawn i ysgol Pärnu Kuninga Tänava Põhikool. Croeso tywysogaidd a chymeradwyaeth frwd unwaith eto. Pan ofynnwyd yma a oedd unrhyw un am ganu i ni, cawsom gân gynulleidfaol gyda'r bobol ar eu traed.

Symud wedyn i Westy'r Olümpia yn Tallinn. Llauer yn cythru am y caffï cacennau, eraill yn chwilio am beint haeddiannol yn y bar moethus, ac eraill yn benderfynol o fanteisio ar brisiau rhad a chael bwyd o safon.

**DYDD SADWRN** – Bore braf ond ychydig yn oer. Manteisiodd pawb bron ar gyfle i grwydro'r hen dref. Cyngerdd yn y pnawn yn Eglwys Uniongred Peeteli, lle roedd y leiafrif Rwsiaidd yn addoli. Croeso digon cynnes yma hefyd, ond nid oedd yr eglwys yn llawn. Hon yw'r eglwys leiaf ei chynulleidfa yn Tallinn. Aled a Mervyn, y Cadeirydd, yn llawn clod am waith gwych gan y côr ar hyd yr wythnos.

Rhai yn manteisio ar rhai o wasanaethau'r gwesty megis peintio ewinedd, trin y gwallt neu dylino'r corff. Eraill yn fodlon mân siarad a chyfarfod pobl o Latfia, Lithwania, Belarws, a gwledydd eraill cyfagos.

**BORE SUL** – Amser cychwyn am adref bob yn dipyn. Taith hir, flinedig, ond llwyddiannus dros ben o safbwynt y canu a'r agwedd gymdeithasol.

*Yn anffodus, nid oedd modd i Gwilym, Idris, Ifor, Evie, Bedwyr, Iwan Morus na Geraint ymuno â'r Côr ar y daith hon. Er hynny, diolchwn iddynt am bob cefnogaeth yn ystod y cyfnod paratoi.*

**DIOLCH** i bob aelod o'r Côr am eu gwaith gwych ar y daith hon. **Diolch** i Aled am ein harwain mor fedrus ac i Idris am ei waith meistrolgar wrth y piano. **Diolch** i Gwilym am helpu efo'r gwaith paratoi. **Diolch** i'r unawdwyr am ychwanegu at yr amrywiaeth yn y cyngerddau. Yn olaf, **diolch** i Phil am drefnu taith mor addysgiadol ac mor ddiddorol i ni; un fydd yn aros yn y cof yn hir. **Mervyn Williams, Cadeirydd**